Dosbarth Meithrin Melin Gruffydd

Sesiynau bore: 9.30 – 11.55 a.m.

Sesiynau prynhawn: 1.15 - 3.40 p.m.

7/9/07

Annwyl Riant/Warchodwr,

Croeso i Ddosbarth Meithrin Melin Gruffydd. Mae'n gynnar eto, ond dwi'n siwr y bydd eich plentyn yn ymgartrefu'n dda yma. Gwnawn ein gorau glas i sicrhau y bydd pob plentyn yn cael y profiadau cymdeithasol ac addysgiadol a fydd yn ei baratoi ar gyfer yr ysgol.

Gweler copi o thema'r tymor sef 'Fi a fy nghartref'. Cynllun bras yn unig yw hwn, ac mi fyddwn yn naturiol yn ychwanegu ato yn ystod y tymor. Byddwn hefyd yn gofyn am fewnbwn o'r cartref o bryd i'w gilydd – Cyswllt Cartref.

Yr hanner tymor cyntaf yma byddwn yn canolbwyntio ar ddod i adnabod eich plentyn, a bydd eich plentyn yn cael yr un cyfle i ddod i'n hadnabod ni. Bydd rhaid i'ch plentyn hefyd gyfarwyddo a threfn newydd e.e – sut i ofyn am fynd i'r ty bach, pa ffedog i wisgo ar gyfer peintio a chwarae yn y dwr a.y.b. Pethau bach, ond pethau bach pwysig i blentyn 3 mlwydd oed, mewn sefyllfa ddieithr yng nghanol llawer o blant. Wrth i'r tymor fynd yn ei flaen byddwn yn canolbwyntio mwy ar y thema, gan geisio cyflwyno'r Chwe Maes Dysgu mewn ffordd ddiddorol a bywiog i'r plant.

<u>Arian Ffrwyth</u>

Rydym yn cynnig darn o ffrwyth a diod o laeth neu oren i'r plant bob dydd, ac yn codi 20c y dydd am hyn. Gellir talu'n wythnosol - £1.00; fesul hanner tymor - £6.00 + £7.00; neu fesul tymor - £13.00. A wnewch chi roi unrhyw arian mewn amlen gydag enw eich plentyn arno'n glir. Sieciau yn daladwy i Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd. Byddwn yn dechrau casglu'r arian ar ddydd Llun 17eg o Fedi. Mae'r elw a wneir yn cael ei wario ar eich plentyn e.e adnoddau newydd, anrhegion Nadolig, bwyd parti, crefftau a.y.b.

<u>Cotiau</u>

Wrth i'r tywydd oeri gofynnwn i'ch plentyn ddod a chot i'r ysgol, gan ein bod yn mynd allan i chwarae bob dydd, os na fydd hi'n bwrw glaw yn drwm iawn.

<u>Dechrau a diwedd sesiwn</u>

Gofynnwn yn garedig i chi ddod i'r drws i gasglu eich plentyn. Os ydych yn newid trefniadau casglu eich plentyn am unrhyw reswm, rhaid i ni gael gwybod drwy lythyr neu alwad ffôn (20691247) er mwyn diogelu eich plentyn. Os yn bosibl, gofynnir yn garedig i chi roi eich rhif ffon symudol/ neu rhif cyswllt os nad ydych ar gael i gasglu eich plentyn petai'n anhwylus yn ystod y prynhawn.

Cofiwch os oes problem gennych, dewch atom i drafod y mater.

Diolch am eich cydweithrediad,

Mrs Bethan Hayes Mrs Mara Llewellyn